27ain o Ebrill 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 4ydd o Fai 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Dewi Jones
Dirprwy Glerc ar rhan
Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 6ed o Ebrill 2021 (**Atodiad Gwyrdd**).

6.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Mynwent Llanbeblig

Cyflwyno gohebiaeth gan y Canon Dylan J Williams ynghylch cynnal tiroedd mynwent Llanbeblig.

9. Awdit 2020-21

Adroddiad llafar yn rhoi diweddariad am y sefyllfa.

10. Adeilad yr Institiwt

Adroddiad llafar yn rhoi diweddariad am y sefyllfa o ran Adeilad yr Institiwt.

11. Digwyddiad Ar-Lein Cymorth Cynllunio Cymru / Un Llais Cymru

Cyflwyno gohebiaeth gan Cymorth Cynllunio Cymru am y digwyddiad.

12. Ymgynghoriad: Pwerau awdurdodau lleol i fasnachu

Cyflwyno gohebiaeth gan Llywodraeth Cymru ar yr ymgynghoriad.

13. Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor Tref Caernarfon a Chyngor Gwynedd ar gyfer darparu system Teledu Cylch Cyfyng Mannau Cyhoeddus

Cyflwyno copi o'r cytundeb diweddaraf (copi a map ynghlwm).

14. Rhybuddion o Gynnig

Cyflwyno'r rhybuddion o gynnig canlynol:

(a) Cynghorydd Maria Sarnaki

"Mae gan Cae Mur broblem fawr o geir yn parcio ar y palmentydd, gan arwain at famau ifanc gyda phramiau a phlant ifanc a'r henoed yn gorfod cerdded yn y ffordd i basio. Mae gan lawer o'r henoed gymhorthion cerdded ac mae hyn yn anodd iddyn nhw. Mae hon yn sefyllfa beryglus iawn. Yn ogystal, mae'n anodd iawn dod o hyd i le parcio yn agos i'ch cartref.

O ganlyniad i hyn, a allwn ni ofyn i'r Clerc ysgrifennu at Gyngor Gwynedd, i fynegi pryder y Cyngor Tref a gofyn iddynt ddatrys y sefyllfa gyda mesurau gorfodi. "

(b) Cynghorydd Ann Hopcyn

"Mae'r Cyngor hwn yn ofidus am lygredd sŵn ar lannau Caernarfon a'r effaith andwyol ar fywyd gwyllt a chydbwysedd ecolegol y Fenai petai bwriad 'Above the Brine' i lansio 'jet skis' o Ddoc Fictoria yn cael ei gyflawni."

CEFNDIR

1. Mae cerdded ar hyd glannau'r Fenai wedi bod yn falm i eneidiau sawl un o drigolion y dref yn ystod y cyfnod y pandemig – llwybrau cerdded yn y dref ac ar y Foryd.
2. Byddai twrw jet skis yn difetha hynny.
3. Mae'r Fenai yn arbennig o ran bioleg:

i. *The Menai Strait has a wide variety of habitat types and is home to over 1,400 recorded species of plants and animals.*

ii. *The Strait is also inhabited by a number of rare creatures.*

iii. *Considerable anxiety has been expressed as to the state of the Menai Strait. It is thought to be suffering increased disturbance and pollution.*

iv. *A steady reduction in water clarity has been recorded since the 1970's* https://www.glaucus.org.uk/Menai.htm

4. Mae'r hyn sy'n ei wneud yn gynefin amrywiol a chyfoethog yn cael ei beryglu gan bresenoldeb jet skis.

15. Cwestiynau

16. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

17. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad ysgrifenedig yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).